FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

AFAL - Gwobrau Mentrau Bwyd Lleol **(2007)**

Ar gyfer pedwaredd rownd AFAL - Gwobrau Mentrau Bwyd Lleol, mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru yn eich gwahodd i enwebu unigolion, timau neu brosiectau sydd, yn eich barn chi, wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddiet neu arferion bwyta trigolion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Cefndir

Yn Rhagfyr 2003 lansiodd Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) Cymru gynllun gwobrwyo i gydnabod a rhoi sylw i waith caled, ymroddiad a brwdfrydedd y sawl sy'n hyrwyddo diet gwell yn lleol. Mae'r camau y mae'r gymuned leol yn eu cymryd i fynd i'r afael â diet a maethiad yn sylfaenol i lwyddiant cyffredinol strategaeth faethiad i Gymru, 'Bwyd a Lles', ac mae fersiwn electronig ar gael yn: http://www.food.gov.uk/wales/nutwales/nutritionstrategy/

Enwebwyd bron i 60 o brosiectau ar gyfer Gwobrau 2006, ac mae manylion pob prosiect, ynghyd ag enwau'r enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail, ar gael ar wefan yr ASB yn:
http://www.food.gov.uk/wales/nutwales/afal/afal2006

Mae'r Gwobrau wedi cael eu cyflwyno yn ystod cynadleddau blynyddol y strategaeth faethiad 'Bwyd a Lles' a gynhelir bob gwanwyn ac sy'n denu'r unigolion allweddol hynny o bob cwr o Gymru sy'n ceisio gwella diet. Mae'r Gwobrau'n gyfle gwych i amlygu arferion da yr enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail, ac maent wedi ysgogi eraill i roi gweithgareddau tebyg ar waith.

Mae'r cynllun Gwobrwyo hefyd wedi galluogi ASB Cymru i greu darlun mwy cyflawn o'r prosiectau bwyd cymunedol sydd ar waith ledled Cymru, ac mae modd darllen am brosiectau a enwebwyd yn y gorffennol ar gronfa ddata ar wefan 'Rhwydwaith Maeth Cymru':
http://www.nutritionnetworkwales.org.uk/page.cfm?orgid=499&pid=9455

Enwebiadau

Mae'r Gwobrau AFAL yn agored i unrhyw unigolion neu sefydliadau sy'n ceisio gwella diet eu cymuned leol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pob sector, gan gynnwys gweithwyr cymunedol a gwirfoddol, y sector addysg, arlwywyr, adwerthwyr a chynhyrchwyr bwyd ac Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd sy'n ceisio newid arferion ar lawr gwlad.

Defnyddir yr un meini prawf â'r llynedd i feirniadu pob prosiect, a dyfernir gwobrau i bum prosiect sydd, ym marn y beirniaid, wedi gwneud y cyfraniad mwyaf at wella diet yn y gymuned. Bydd pum prosiect sy'n dod yn ail hefyd yn derbyn gwobrau.

Byddem yn falch o dderbyn enwebiadau gan gydweithwyr, hunan-enwebiadau neu enwebiadau gan aelodau cymunedau sy'n elwa ar y gweithgareddau dan sylw.

Rydym yn awyddus iawn i weld enwebiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau a gynhelir yng nghymunedau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed Cymru, fel y rhai hynny sy'n targedu grwpiau incwm isel neu leiafrifoedd ethnig lle mae gwir angen cynlluniau i wella diet. Rydym hefyd yn awyddus i dderbyn enwebiadau gan brosiectau sy'n llwyddo i ychwanegu gwerth pan fo arian yn brin. Rhoddir cymeradwyaeth i brosiectau sy'n enghreifftiau da o gydweithio ac arloesedd.

Dim ond os yw'r enwebiad yn gysylltiedig â phrosiect newydd neu gyfnod datblygu newydd mewn prosiect cyfredol y caiff enillwyr blaenorol ymgeisio.

Bydd yr enillwyr yn derbyn £2000 i'w fuddsoddi yn y fenter bwyta'n iach dan sylw, powlen ffrwythau a thystysgrif. Bydd y rhai sy'n dod yn ail yn derbyn £1,000, powlen ffrwythau a thystysgrif. Gwahoddir yr enwebiadau yn y rowndiau terfynol i wneud cyflwyniad byr am eu prosiect mewn cynhadledd yng ngwanwyn 2007. Cyhoeddir enwau'r enillwyr a chyflwynir y gwobrau yno hefyd.

Amserlen

• Gellir ymgeisio drwy gwblhau'r ffurflen enwebu amgaeedig a'i dychwelyd **erbyn 15 Rhagfyr 2006 fan bellaf.**

• Anfonwch ffurflenni enwebu wedi'u cwblhau at:

Kerys James-Palmer
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW

neu e-bostiwch: nutritionstrategywales@foodstandards.gsi.gov.uk

• Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu gan banel dethol annibynnol, a rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus erbyn **diwedd Chwefror 2007**.

• Gwahoddir y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol i wneud cyflwyniad byr am eu menter yng nghynhadledd faethiad 'Bwyd a Lles' **yng ngwanwyn 2007.**

Ffurflen Enwebu – Gwobrau AFAL 2007

Llenwch bob bocs, gan gynnwys cymaint o fanylion â phosib. Nid oes angen cyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'r ffurflen enwebu. Bydd unrhyw ddeunydd o'r fath yn cael ei anwybyddu yn y broses feirniadu.

Dyddiad cau 15 Rhagfyr 2006.

Manylion y prosiect

Teitl y prosiect:

Manylion prif gyswllt y fenter a enwebir: *(Rhowch enw, swydd, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost lle bo'n bosib)*

Enwebwyd gan: *(enw/manylion cyswllt yr unigolyn/sefydliad sy'n enwebu - peidiwch â llenwi hwn os ydych chi'n enwebu'ch hun)*

Beth yw statws y fenter?

(rhowch dic)

- ❑ Grŵp cymunedol
- ❑ Elusen
- ❑ Awdurdod Lleol
- ❑ Arall - nodwch:
- ❑ Sefydliad gwirfoddol lleol
- ❑ Ymddiriedolaeth GIG/BILI
- ❑ Corff statudol/sector cyhoeddus arall

Sut y cyllidwyd y fenter?

A yw'r prosiect yn derbyn cyllid grant?

Ydy ❑ Nac ydy ❑

Os ydy, pwy yw'r sefydliadau sy'n noddi?

A yw'r prosiect yn derbyn unrhyw gymorth o fath arall? *(e.e. cyfarpar, adeiladau)*

Beth yw prif weithgareddau a grwpiau targed y fenter?

Beth yw gweithgareddau'r fenter? *(ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

❑ Clybiau ar ôl-ysgol	❑ Clwb brecwast	❑ Bwydo ar y fron
❑ Arlwyo	❑ Caffi cymunedol	❑ Sgiliau coginio
❑ Marchnad ffermwyr	❑ Bwyd a ffitrwydd	❑ Cwmni bwyd cydweithredol
❑ Danfon bwyd	❑ Darparu bwyd	❑ Tyfu bwyd
❑ Addysg iechyd	❑ Calonnau iach	❑ Ymarfer Corff
❑ Adsefydlu	❑ Maethiad ysgol	❑ Siop fwyd ysgol
❑ Rheoli pwysau	❑ Clybiau ieuenctid	❑ Arall (nodwch):

Pwy yw'r grwpiau targed? *(ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

❑ Camddefnyddwyr alcohol a chyffuriau	❑ BME (Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig)
❑ Pobl â chlefyd cardiofasgwlaidd	❑ Staff arlwyo
❑ Plant 0-1 oed	❑ Plant 1-4 oed
❑ Plant oed cynradd	❑ Plant oed uwchradd
❑ Teuluoedd	❑ Pobl ddigartref
❑ Pobl ag anawsterau dysgu	❑ Defnyddwyr incwm isel
❑ Dynion	❑ Pobl â phroblemau iechyd meddwl
❑ Pobl hŷn	❑ Menywod beichiog
❑ Pobl broffesiynol ac ymarferwyr	❑ Y rhai â mynediad cyfyng
❑ Rhieni sengl	❑ Menywod
❑ Oedolion ifanc	❑ Arall (nodwch):

Manylion cryno am y fenter:

O ble daeth y syniad am y prosiect hwn/pam y mae angen menter o'r fath?

Pryd cafodd y prosiect ei sefydlu?

Beth yw cefndir y gymuned lle mae'r prosiect ar waith?

Beth yw amcan y prosiect?

Disgrifiwch brif weithgareddau'r prosiect yn gryno *(gan gynnwys unrhyw beth sydd, yn eich barn chi, yn unigryw i'r fenter hon)*

Gweithio mewn partneriaeth

A oes grwpiau/sefydliadau eraill yn cyfrannu at y prosiect? *(rhestrwch)*

Gwerthuso'r prosiect

A yw'r prosiect wedi'i werthuso'n ffurfiol? *(Os ydy, rhowch grynodeb o'r canlyniad)*

Beth yw prif lwyddiannau'r prosiect hyd yma yn eich barn chi?

A yw'r prosiect wedi wynebu unrhyw anawsterau a pha wersi sydd wedi'u dysgu?

Pam y mae'r prosiect yn haeddu gwobr AFAL yn eich barn chi?

Sut fydd eich prosiect yn datblygu yn y dyfodol? *(e.e. oes gennych chi gynlluniau ychwanegol, a yw'ch prosiect yn gynaliadwy?)*

Ydych chi'n fodlon i fanylion y prosiect a'ch manylion cyswllt gael eu datgelu ar wefan Rhwydwaith Maeth Cymru a Chronfa Ddata Mentrau Bwyd Cymunedol?

Ydw ❑ Nac ydw ❑

Fyddech chi'n barod i'ch menter ymddangos ar wefan Rhwydwaith Maeth Cymru fel astudiaeth achos?

Byddwn ❑ Na fyddwn ❑

Anfonwch ffurflenni enwebu wedi'u cwblhau at: Kerys James-Palmer, Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Llawr 11 Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW neu e-bostiwch: nutritionstrategywales@foodstandards.gsi.gov.uk ***Y dyddiad cau yw 15 Rhagfyr 2006.***